# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Ebrill 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6288

# 273(v2)

## Datganiad gan y Llywydd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gyfystyr â thrafodion y Cynulliad at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys - nodwyd pob un ohonynt ar yr agenda.

Dywedodd y Llywydd fod y cyhoedd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, wedi cael eu gwahardd rhag mynychu'r Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd y byddai Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 13.33

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (Covid-19)

Dechreuodd yr eitem am 13.33

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Ymateb i'r Coronafeirws (Covid-19)

Dechreuodd yr eitem am 14.52

## Derbyniwyd y cynnig o dan Reolau Sefydlog 12.24 a 12.40 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd a'u bod yn destun un bleidlais (60 munud)

Am 16.00 gohiriwyd y cyfarfod am 15 munud.

## 4 Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.15

Dyfarniad y Llywydd

16.22 - Yn unol â Rheol Sefydlog 13.11, dywedodd y Llywydd ei bod yn ofynnol Neil McEvoy ymneilltuo o drafodion y Cynulliad

**Gohiriwyd pleidlais ar y cynigion o dan eitemau 4 a 5 tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7307** - Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Cafodd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol eu gosod gerbron y Cynulliad ar 18 Tachwedd 2019;

Cafodd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ei osod gerbron y Cynulliad ar 13 Mawrth 2020.

## 5 Cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

**NDM7308** – Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o fath y cyfeirir ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Fel y nodir ar yr Agenda, cynhelir pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.

Enwebodd pob grŵp gwleidyddol un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp. Yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, bydd yr enwebai yn cario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp hwnnw ynghyd ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth. Roedd aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp neu grwpiad yn pleidleisio drostynt eu hunain.

**Cynhaliwyd y pleidleisiau trwy alw'r gofrestr.**

Gan fod y Cynulliad wedi cytuno i grwpio'r cynigion ar Egwyddorion Cyffredinol a Phenderfyniad Ariannol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar gyfer pleidleisio, cafwyd un bleidlais fel a ganlyn.

- Ar ran y Grŵp Llafur a'r llywodraeth – John Griffiths *(30 pleidlais)*
- Ar ran Grŵp Ceidwadwyr Cymru – Darren Millar *(11 pleidlais)*
- Ar ran Plaid Cymru – Helen Mary Jones *(9 pleidlais)*
- Ar ran Plaid Brexit – Caroline Jones *(4 pleidlais)*

- Neil Hamilton

**Canlyniad y bleidlais ar y cynigion oedd:**

| O blaid: | Yn ymatal | Yn erbyn: | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 25 | 55 |

**Derbyniwyd y cynigion.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.30

Daeth y cyfarfod i ben am 17.32

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 22 Ebrill 2020**